Hayley Dunne

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Rwyf wedi mwynhau gyrfa yn y sector gwirfoddol ers dros 25 o flynyddoedd, ac wedi gwirfoddoli mewn amrywiaeth o weithgareddau yn yr amser hwnnw, ar lefel strategol a chymunedol. Yr hyn sy'n fy ysgogi i yw gweld yr effaith y mae gwasanaethau a ddarperir gan fudiadau'r trydydd sector yn ei chael ar fywydau pobl. Byddwn yn defnyddio'r profiad a'r sgiliau hyn er budd yr holl sector fel ymddiriedolwr CGGC.

Un o fy ngwerthoedd craidd personol yw gwasanaeth; rwy'n cael boddhad o rannu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad gydag eraill mewn ffordd sydd o fudd iddynt ac rwy'n mwynhau cyfrannu at gymdeithas a dylanwadu arni. Pleser o'r mwyaf yw gweld pobl eraill yn llwyddo, boed hynny fel unigolion neu fel mudiadau.

Yn arweinydd profiadol a chyfathrebwr cryf, gyda lefelau eithriadol o wybodaeth emosiynol, credaf fod gennyf y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad perthnasol i gynorthwyo CGGC i wireddu ei weledigaeth a chyflawni ei nodau ar gyfer 2022-2027, ynghyd â'r brwdfrydedd i sicrhau'r weledigaeth am ddyfodol lle y mae mudiadau gwirfoddol a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru. I lwyddo yn y rôl, byddwn yn defnyddio fy nghryfderau, sef persbectif (gallu rhoi cyngor doeth i eraill), pwyll (wrth ystyried tystiolaeth) a gonestrwydd (cyflwyno fy hun mewn modd didwyll a diffuant.